Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Pam mae twyni tywod yn bwysig?

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **30 munud** |
| **Lleoliad** | **Tu mewn neu'r tu allan** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ac mae'n canolbwyntio ar dwyni tywod a'r buddion amrywiol maent yn eu cynnig.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | |

## Amcanion

- Bydd dysgwyr yn gallu esbonio rhai o'r rhesymau pam mae twyni tywod yn bwysig.
- Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio pa rai o'r rhesymau sydd fwyaf pwysig, yn eu barn nhw.
- Bydd dysgwyr yn gallu deall bod twyni tywod yn cynnig buddion amrywiol i bobl ac i'r amgylchedd.

## Adnoddau ac offer

- **Cardiau adnoddau – Pam mae twyni tywod yn bwysig?**

## Beth i wneud

Gellir addasu'r gweithgaredd a'i gynnal mewn gwahanol ffyrdd (gweler opsiwn 1 a 2 isod). Gellir ei ddefnyddio hefyd i gyflwyno neu atgyfnerthu dysgu am dwyni tywod, newid hinsawdd a chynaliadwyedd.

Gofynnwch i'r grŵp pam mae twyni tywod yn bwysig a thrafodwch eu syniadau.

1. Yn annibynnol neu mewn grwpiau bach, dosbarthwch set o'r cardiau adnoddau a gofynnwch i'r dysgwyr roi'r cardiau mewn trefn yn ôl pa rai o fuddion twyni tywod sydd fwyaf pwysig yn eu barn nhw, o'r mwyaf i'r lleiaf pwysig. Trafodwch y canlyniadau.

2. Gan weithio mewn grwpiau, rhowch un cerdyn adnodd i bob dysgwr. Y nod yw i'r grŵp eu trefnu eu hunain fel eu bod yn sefyll mewn trefn o'r mwyaf pwysig i'r lleiaf pwysig, o ran y buddion y mae twyni tywod yn eu cynnig. Gan ddefnyddio'u cerdyn fel cefndir, dylai pob un yn eu tro esbonio i'r lleill ble dylen nhw sefyll yn nhrefn pwysigrwydd.

### Sesiwn grynhoi

Esboniwch nad oes atebion cywir nac anghywir. Diben y gweithgaredd yw annog trafodaeth ac i'r myfyrwyr ddysgu y gall twyni tywod gynnig buddion amrywiol i bobl ac i'r amgylchedd.

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Beth yw mantais fwyaf pwysig twyni tywod, yn eich barn chi?
- Sut gallwn ni gynyddu nifer a maint systemau twyni tywod yng Nghymru?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Tynnwch rai o'r cardiau o'r set.
- Gwnewch y gweithgaredd fel grŵp cyfan.

### Mwy o sialens

- Archwiliwch a oes buddion eraill y mae twyni tywod yn eu cynnig a rhowch y rhain yn y set o gardiau.

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

- Gwnewch siartiau a graffiau i ddangos sut y gwnaethon nhw drefnu'r cardiau, e.e. siart bar gyda phobl. Rhowch y cardiau ar y llawr a gofyn i'r plant sefyll mewn llinellau syth o flaen y cerdyn a ddewison nhw, i wneud y 'bariau'.
- Defnyddiwch gelf naturiol i ddangos un ffordd y mae twyni tywod yn bwysig.

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**

SoLIFE: LIFE 17 NAT/UK/000023
Mae prosiect Twyni Byw-Sands of LIFE wedi cael cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

NATURA 2000

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government